# Gwirfoddolwyr Chwarae Plant

yn **Amgueddfa Lechi Cymru**.

**Pwrpas y rôl:** i helpu teuluoedd i chwarae â theganau traddodiadol a gemau. Lleolir Amgueddfa Llechi Cymru yng ngweithdai Fictoraidd hen chwarel Dinorwig, yng nghysgod Mynydd Elidir. Yma, gallwch deithio nôl i weld gorffennol diwydiant a ffordd o fyw sydd bellach yn rhan annatod o hunaniaeth Cymru. Rydyn ni yn edrych am wirfoddolwyr i helpu dod ar hanes yma i fyw.

**Lleoliad:** Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis **Adran:** Addysg

**Oedran**: 16+

**Byddai'r rôl yn addas i bobl sydd:**

- Yn awyddus i gymryd rhan
- Yn mwynhau helpu eraill i ddysgu a darganfod
- yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg.
- Yn edrych am rywbeth ad-hoc neu ystod y gwyliau ysgol.

Cymraeg

**Oes gennych chi ddiddordeb? Llenwch ffurflen neu cysylltwch â ni ar gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffoniwch (029) 2057 3002.**

**Ystyriaethau**: Mae angen i wirfoddolwyr allu siarad Cymraeg ar gyfer y rôl yma. Mae'r rôl yma ddim yn addas ar gyfer cadair olwyn oherwydd natur yr adeiladau hanesyddol. Bydd gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant fel rhan o'r rôl.



**Oriau ac Ymrwymiadau:** Yn ddelfrydol, rydyn ni'n chwilio am wirfoddolwr fydd ar gael rhwng 1pm - 4pm, unwaith neu dwywaith yr wythnos. Mae'r rôl yma ar gael yn ystod gwyliau ysgol yn unig (ar wahân i'r Nadolig).



**Beth ydyn ni'n gynnig i'n gwirfoddolwyr:**

- Costau teithio
- Gostyngiadau yn ein siopau a chaffis
- Gallwn gynnig geirda ar gais
- Rydym hefyd yn cael digwyddiadau dathlu, teithiau tu ôl y llen a chyfleoedd i gwrdd â phobl newydd.



